Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Blaenoriaethau'r Cynllun Gofal Llygaid tan 2018

Awst 2017

ISBN digidol 978 1 78859 214 7 © Hawlfraint y Goron 2017 WG32599

# Rhagair



**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd, Lles a Chwaraeon

Mae'r tair blynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod lle mae'r gymuned gofal llygaid gyfan yng Nghymru wedi datblygu a threfnu ei hun yn genedlaethol ac yn lleol.

Gan gydweithio i gyflawni'r un amcanion o hybu iechyd y llygaid, o sgrinio, canfod achosion a monitro gwasanaethau yn y gymuned i ofal mwy arbenigol pan mae angen yn y gymuned, mewn ysbytai ac mewn awdurdodau lleol, a darparu cefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n cael diagnosis o olwg gwan a cholli'r golwg.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid (2013), gan fabwysiadu egwyddorion gofal iechyd darbodus a gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru, gwasanaethau cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a'r trydydd sector. Nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau; rydym yn cydnabod bod mwy i'w gyflawni ac nad yw'r cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod ar y raddfa yr oeddem wedi'i disgwyl.

Mae darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag iechyd llygaid gwael a phobl sy'n colli'r golwg, a darparu adfer a chefnogaeth barhaus ar eu cyfer, yn parhau'n uchel ar ein hagenda. Mae'r cynllun diwygiedig hwn yn adeiladu ar y gwaith hyd yma ac yn datgan y blaenoriaethau y byddwn yn eu cyflawni hyd at 2018. Mae rhoi sylw i'r diffyg capasiti parhaus er mwyn bodloni'r galw am wasanaethau llygaid mewn ysbytai'n elfen benodol.

Rhaid i fodelau gwasanaeth yn y dyfodol sicrhau ein bod yn defnyddio sgiliau llawn y gweithlu gofal iechyd i leddfu'r pwysau ar wasanaethau mewn ysbytai, gan wneud y defnydd gorau o wasanaethau optometreg cymunedol i wneud hyn. Rhaid i ni sicrhau bod data penodol am ganlyniadau a phrofiad cleifion yn cael eu casglu gan GIG Cymru a bod y gweithlu offthalmig cyfan yn cael mynediad at brosesau adolygu cymheiriaid y dyfodol, a'r cyfan er mwyn gwella canlyniadau a phrofiad cleifion o ofal a chefnogaeth.

Mae argymhellion y Cynllun Cyflawni wedi cael eu blaenoriaethu i ystyried yr heriau sydd o'n blaen a'r cynlluniau trawsbynciol eraill fel y Cynllun Gofal Sylfaenol, y Cynllun Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig, y Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016, y Safonau Iechyd a Gofal, 2015 a'r Cynllun Cyflawni Ansawdd.

Rydym yn disgwyl mwy o sylw i'r amcanion cytunedig a chyflawni'n gynt er mwyn sicrhau ein bod yn eu gweithredu. Mae angen arweinyddiaeth gadarn ar gyfer hyn yn llawer o'n gwasanaethau, er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol.

Os byddwn yn parhau i gydweithredu ar draws y gymuned iechyd llygaid a gofal cymdeithasol gyfan, caiff y blaenoriaethau hyn eu cyflawni. Byddwn yn sicrhau gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol o ansawdd uchel i bob dinesydd ledled Cymru.

# Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

Dyma 5 mlynedd cyntaf y Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid ac mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgymryd â'r hyn sydd wedi'i gyflawni eisoes drwy weithredu argymhellion y Cynllun Cyflawni. Dyma'r llwyddiannau allweddol:

- Sefydlu Bwrdd Llywio Gofal Iechyd Llygaid Cenedlaethol Cymru, Grwpiau Cydweithredol lleol ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob sector a'r arweinyddiaeth Weithredol. Mae hyn wedi galluogi datblygu a darparu gwasanaethau'n gydweithredol ac yn integredig i bobl, a gwella eu profiad.
- Datblygu cynghorwyr optometrig gofal sylfaenol ar gyfer byrddau iechyd, i helpu gyda datblygu llwybrau gofal. Mae hyn wedi sicrhau'r defnydd gorau posib gan gleifion o'r practis optometrig cymunedol a gofal a ddarperir yn nes at eu cartref.
- Rydym wedi cydweithio â phartneriaid yn y trydydd sector i gyflwyno ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o Wasanaethau Gofal Llygaid Cymru. Mae hyn wedi creu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd gofal llygaid a sut dylai pobl chwilio am gymorth a chefnogaeth os oes ganddynt broblem.
- Mae ardystio nam ar y golwg a nam difrifol ar y golwg yn fesur canlyniad gan GIG Cymru yn awr. Bydd adolygu'r ffurflen a'r broses ar gyfer Ardystio Nam ar y Golwg, i'w gwneud yn gadarnach, yn annog cofrestru, dros amser, a chasglu data fel sail i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Datblygu a gweithredu'r sicrwydd ansawdd allanol cenedlaethol ar gyfer WHC (2015) 11 Llwybr Golwg Plant Cymru. Mae hyn wedi galluogi i bob plentyn 4- 5 oed gael prawf sgrinio golwg. Hefyd, mae manyleb ar gyfer gwasanaeth i sicrhau bod plant ag anghenion addysgol arbennig yn cael cynnig prawf golwg blynyddol yn yr ysgol wedi'i chytuno.
- Mae hyfforddiant wedi cael ei roi i fferyllwyr, nyrsys practis, Meddygon Teulu a derbynyddion ar y llwybrau cyfeirio a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol ledled Cymru. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o Wasanaeth Gofal Llygaid Cymru a gwell atgyfeirio i gleifion gael mynediad at wasanaethau'n fwy prydlon.
- Rydym wedi cydweithio i adolygu gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), i alluogi optometryddion i wella ansawdd yr atgyfeirio a galluogi rhyddhau cleifion risg isel o ysbytai i ofal sylfaenol. Mae mwy o arferion optometreg wedi'u harchredu gan EHEW yn awr – gan gynnig gwasanaethau gofal sylfaenol gyda'r ansawdd wedi'i sicrhau.
- Rydym wedi datblygu a gweithredu llwybr cataract cenedlaethol, sy'n cynnwys gofal ar ôl llawdriniaeth gan optometryddion yn y gymuned. Mae'r Ffocws ar lwybr cataract Offthalmoleg yn defnyddio effeithlonrwydd y gwasanaeth EHEW drwy ddileu o'r llwybrau presennol elfennau nad ydynt o lawer o werth neu sy'n dyblygu darpariaeth. Mae hyn wedi gwella profiad y claf drwy ddarparu gofal yn nes at ei gartref.
- Mae Canolfannau Trin Diagnostig Offthalmoleg wedi cael eu sefydlu ar gyfer glawcoma ym mhob bwrdd iechyd, i leihau'r pwysau mewn gofal eilaidd, gan ryddhau adnoddau ychwanegol i drin achosion risg uchel dilynol a defnyddio sgiliau nyrsys, orthoptyddion ac optometryddion. Mae hyn wedi gwella'r gofal a sicrhau bod cleifion yn cael gofal prydlonach.
- Mae modelau braenaru newydd ar droed mewn byrddau iechyd dethol i asesu am ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint, a'i drin a/neu ei fonitro yn nes at gartrefi pobl. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso gan adrodd yn ôl erbyn diwedd 2017, fel bod posib rhannu'r dysgu i ddatblygu modelau effeithiol ledled Cymru.

- Rydym wedi gweithio gyda grŵp y cynllun cyflawni diabetes cenedlaethol er mwyn sicrhau bod sgrinio retina'r llygaid ar gyfer cleifion diabetig yn cael ei hybu a'i fonitro. Mae hyn wedi gwella'r gofal a sicrhau bod cleifion yn cael gofal prydlonach.
- Lansiad y Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio a chyhoeddiad y Cynllun Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig i ganolbwyntio ar fodelu galw a chapasiti. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau gofal llygaid cynaliadwy ac yn gwella'r profiad i'r claf.
- Mae mwy na 90% o'r practisau optometreg wedi cael eu cysylltu â rhwydwaith TG GIG Cymru, a fydd yn galluogi cyswllt â gwasanaethau gofal llygaid mewn ysbytai. Hefyd, bydd y gwaith yn parhau ar ddatblygu cofnod claf electronig i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio'n brydlonach ar gyfer triniaeth. Mae'r rhain yn elfennau pwysig o welliannau TG a fydd yn gwella gofal a rennir ac yn sicrhau mynediad prydlonach at ofal i gleifion rhwng gwasanaethau ysbyty a chymunedol.

## 1. Y blaenoriaethau hyd at 2018

Er mwyn gweithredu'n gynt, rydym yn datgan yn glir y 10 blaenoriaeth y byddwn yn eu cyflawni hyd at a thrwodd i 2018. Mae hyn yn adeiladu ar waith cynharach ac yn rhoi mwy o ffocws ar themâu allweddol y Cynllun Cyflawni Gofal Llygaid.

O dan y thema blaenoriaeth o godi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen am brofion rheolaidd ar y golwg, byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, i ddatblygu cynllun i godi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen am brofion rheolaidd ar y golwg er mwyn canfod ac atal colli'r golwg, yn enwedig i grwpiau o bobl sydd â risg uchel o glefyd y llygaid.

O dan y thema blaenoriaeth canfod iechyd gwael y llygaid a phroblemau golwg yn gynnar, wedi'i thargedu at bobl sy'n wynebu risg, byddwn yn gwneud y canlynol:

2. Darparu gwasanaeth sgrinio golwg safonol i blant mewn ysgolion prif ffrwd pan maent yn dod i'r ysgol am y tro cyntaf a gwasanaeth sy'n darparu prawf golwg blynyddol i blant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion.
3. Gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys clystyrau gofal sylfaenol, i sicrhau bod gofal llygaid o ansawdd da'n cael ei ddarparu i bobl hŷn fregus, y rhai â dementia ac i bobl mewn cartrefi gofal a gofal preswyl.
4. Sicrhau bod yr holl optometryddion sy'n ymarfer yng Nghymru'n darparu gwasanaeth uwch Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru i alluogi mwy o bobl i gael eu rheoli'n agos at eu cartrefi..
5. Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol a chleifion i adolygu targedau ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg mewn ysbytai, i gynnwys mesurau ar gyfer yr holl gleifion (newydd a dilynol) yn seiliedig ar angen clinigol a risg o golli golwg na ellir ei adfer.
6. Cefnogi gweithio'n integredig ac yn effeithlon a gwella'r drefn o gyfathrebu gwybodaeth yn ddiogel drwy ehangu'r atgyfeirio optometrig electronig a'i flaenoriaethu mewn ysbytai ledled Cymru, gan ddechrau o fis Ionawr 2017 ymlaen. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gwerthuso'r opsiynau ar gyfer Cofnod Claf Electronig er mwyn ehangu ledled Cymru.
7. Rhoi camau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig ar waith, gan gynnwys yr archwiliad cataract cenedlaethol.
8. Datblygu cynlluniau gweithlu a datgan anghenion i gefnogi safonau da o ofal a sicrhau bod addysg a hyfforddiant ar gael i gefnogi datblygiadau mewn gofal llygaid yn genedlaethol ledled Cymru; datblygu timau amlddisgyblaethol a gofal yn nes at gartrefi pobl.
9. Gweithio i sicrhau bod pawb sydd â hawl yn cael cynnig ardystiad fel unigolion â nam ar y golwg.

10. Gweithio gydag awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â nam ar y golwg; yn allweddol i hyn mae darparu gwasanaethau adfer a chymhwyso ym mhob awdurdod, i atal colli annibyniaeth a symudedd, ac i atal codymau, iselder ac achosion o fod yn ynysig mewn pobl sy'n colli'r golwg/â nam ar y golwg.

Drwy roi sylw penodol i atal, canfod y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o broblemau gyda'r golwg, a darparu triniaeth brydlon, mae disgwyl y bydd grwpiau cyflawni iechyd llygaid y byrddau iechyd yn canolbwyntio ar y 10 blaenoriaeth allweddol i wneud newid mawr mewn gwasanaethau iechyd llygaid. Mae'r themâu hyn yn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus:

- Cyflawni iechyd a lles gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal drwy gynhyrchu ar y cyd
- Gofalu am y rhai sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau
- Gwneud dim ond beth sydd ei angen, dim mwy, dim llai; a gwneud dim niwed
- Lleihau'r amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Mae Bwrdd y Cynllun Cyflawni Diabetes wedi datgan dau argymhelliad o'r Cynllun Cyflawni (2016) y byddant yn parhau i roi blaenoriaeath iddynt. Bydd y gymuned gofal iechyd llygaid yn helpu â'r gwaith gyda hwy a phartneriaid eraill, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'r trydydd sector, i roi'r ddau gam gweithredu yma ar waith:

- Codi ymwybyddiaeth o'r angen am sgrinio diabetig rheolaidd ymhlith grwpiau risg uchel; a
- Darparu triniaeth offthalmig brydlon ac effeithiol i bobl â chlefyd llygaid diabetig.

Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Llywio Gofal Iechyd Llygaid Cenedlaethol Cymru a'r Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig, bydd y sylw ar gyflawni'r camau gweithredu y tynnwyd sylw atynt yn Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymunedol a gyhoeddwyd yn 2016 ac adroddiad Arolygiaeth Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn 2017. Os oes angen camau gweithredu ychwanegol, bydd y grwpiau hyn yn darparu ymateb ar y cyd ynghylch ymgorffori'r rheini yn y cynlluniau gweithredu presennol. Bydd grwpiau cyflawni iechyd llygaid y byrddau iechyd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gweithredu i ddod â'r holl welliannau iechyd llygaid at ei gilydd yn un cynllun gweithredu cyffredinol y byddant yn gyfrifol am ei fonitro.

# Cynllun Cyflawni Iechyd y Llygaid 2017-2018 – Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer eu Cyflawni

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, i ddatblygu cynllun i godi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen am brofion rheolaidd ar y golwg er mwyn canfod ac atal colli'r golwg, yn enwedig i grwpiau o bobl sydd â risg uchel o glefyd y llygaid. | Camau Gweithredu yng nghynllun tymor canolig canolraddol Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Cynllun ar gyfer cyflawni camau gweithredu iechyd y cyhoedd yn ei le. | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid y Byrddau Iechyd ac arweinydd iechyd cyhoeddus<br>Nyrsys Ysgol<br>Orthoptyddion<br>Optometryddion<br>Optometreg Cymru<br>Trydydd Sector<br>Tîm Cyfathrebu Llywodraeth Cymru. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Cynllun wedi'i gytuno erbyn mis Ebrill 2017 |
| Darparu gwasanaeth sgrinio golwg safonol i blant mewn ysgolion prif ffrwd pan maent yn dod i'r ysgol am y tro cyntaf a gwasanaeth sy'n darparu prawf golwg blynyddol i blant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion. | Adrodd yn ôl ar adolygiad sicrwydd ansawdd 2015-16 o sgrinio a gwneud gwelliannau 2016-17.<br><br>Ceisio ffynhonnell gyllid ar gyfer arweinydd prosiect anghenion addysgol arbennig. | Grŵp Cynghori Golwg Plant | Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid y Byrddau Iechyd<br>Nyrsys Ysgol<br>Orthoptyddion<br>Optometryddion<br>Optegwyr Cymwysedig<br>Awdurdodau Lleol. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Adroddiad Sgrinio cyntaf erbyn mis Ebrill 2017<br><br>Ail adroddiad sgrinio erbyn mis Ebrill 2018 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys clystyrau gofal sylfaenol, i sicrhau bod gofal llygaid o ansawdd da'n cael ei ddarparu i bobl hŷn fregus, y rhai â dementia ac i bobl mewn cartrefi gofal a gofal preswyl. | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu cynllun. | Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y Comisiynydd Pobl Hŷn Optometryddion Optometreg Cymru Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig Byrddau Iechyd Clystyrau. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid<br>Pwyllgor Optometreg Cymru | Cynllun wedi'i lansio |
| Sicrhau bod yr holl optometryddion sy'n ymarfer yng Nghymru'n darparu gwasanaeth uwch Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru i alluogi mwy o bobl i gael eu rheoli'n agos at eu cartrefi. | Cam gweithredu yng nghynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth.<br>Newid llwybrau atgyfeirio. | Cyd-bwyllgor Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru | Byrddau Iechyd Cynghorwyr Optometrig ac Arweinwyr Gofal Sylfaenol Arweinydd Clinigol Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig Optometreg Cymru. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid<br>Pwyllgor Optometreg Cymru | Yng nghynlluniau tymor canolig canolraddol 2017-18 y byrddau iechyd<br>Yr holl arferion wedi'u hachredu ym mis Ebrill 2018 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol a chleifion i adolygu targedau ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg mewn ysbytai i gynnwys mesurau ar gyfer yr holl gleifion (newydd a dilynol) yn seiliedig ar angen clinigol a risg o golli golwg na ellir ei adfer. | Grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu.<br>Argymhellion i'r Bwrdd Llywio Gofal Llygaid. | Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen | Cyfarwyddwyr Meddygol<br>Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig<br>Tîm Cyflawni Llywodraeth Cymru<br>Rheolwyr byrddau iechyd<br>Grwpiau Cleifion<br>Trydydd Sector. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Grŵp gorchwyl a gorffen i adrodd i Ysgrifennydd y Cabinet erbyn mis Ebrill 2017<br>Adroddiad i'r Bwrdd Llywio Gofal Llygaid ym mis Mai 2017 |
| Cefnogi gweithio'n integredig ac yn effeithlon a gwella'r drefn o gyfathrebu gwybodaeth yn ddiogel drwy ehangu'r atgyfeirio optometrig electronig a'i flaenoriaethu mewn ysbytai ledled Cymru, gan ddechrau o fis Ionawr 2017 ymlaen.<br>Gwerthuso'r opsiynau ar gyfer cofnod claf electronig ledled Cymru erbyn mis Mawrth 2017, gyda'r bwriad o'i ehangu ledled Cymru. | Cwblhau atgyfeirio electronig peilot a system atgyfeirio cleifion.<br>Cais am ehangu ledled Cymru drwy gyfrwng Cronfa Dechnoleg Llywodraeth Cymru.<br>Cam gweithredu yng nghynlluniau tymor canolig canolraddol y byrddau iechyd a Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru.<br>Cynnwys y proffesiwn optometreg ac arweinwyr TG y byrddau iechyd i weithio gyda chlinigau llygaid ysbytai. | Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru<br>Arweinwyr TG y Byrddau Iechyd<br>Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid<br>Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig | Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol<br>Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru<br>Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig<br>Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol<br>Optometreg Cymru. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid<br>Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid y Byrddau Iechyd | Datblygu achos busnes erbyn mis Ebrill 2017<br>Cynlluniau peilot gofal sylfaenol wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2017<br>Cynlluniau Tymor Canolig Canolraddol y Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru a'r Byrddau Iechyd 2017-18 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoi camau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig ar waith, gan gynnwys yr archwiliad cataract cenedlaethol. | Cam gweithredu yng Nghynlluniau Tymor Canolig Canolraddol y byrddau iechyd.<br>Byrddau iechyd i gasglu, adrodd a monitro ar gapasiti a galw.<br>Ymestyn y defnydd o ganolfannau triniaeth diagnostig Offthalmig ar gyfer glawcoma.<br>Rhyddhau Triniaethau Gorbwysedd Ocwlar ac Amheuaeth o Gataractau i wasanaeth EHEW.<br>Gweithio i wella cyfradd drosi cataractau – anelu at 80% ar gyfer cataractau oedolion<br>Gweithio i sicrhau bod yr atgyfeiriadau optometreg ar gyfer cataractau'n cynnwys yr holl wybodaeth briodol ac angenrheidiol | Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig Cymru | Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig Cymru<br>Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid y Byrddau Iechyd<br>Cyfarwyddwyr Meddygol<br>Offthalmolegwyr<br>Nyrsys Offthalmig<br>Orthoptyddion<br>Optometryddion. | Bwrdd Gofal Wedi'i Gynllunio Offthalmig Cymru | Cynlluniau Tymor Canolig Canolraddol Byrddau Iechyd 2017-18<br>Capasiti triniaeth, newydd a dilynol ar gael i fodloni'r galw erbyn mis Ebrill 2018 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| | 80% o'r gwasanaeth dilynol ar ôl llawdriniaeth cataract gan wasanaeth EHEW.<br><br>Datblygu gwasanaethau wAMD cynaliadwy gan ddefnyddio ymarferwyr anfeddygol a gwasanaethau cymunedol. | | | | |
| Datblygu cynlluniau gweithlu a datgan anghenion hyfforddi i ddarparu timau amlddisgyblaethol a arweinir gan offthalmoleg a gofal yn nes at gartrefi pobl, mewn gofal sylfaenol, lle mae'n ddiogel gwneud hynny. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid – Datblygu a chytuno ar Gynllun Cyffredinol.<br><br>Y Byrddau Iechyd i ystyried a rhoi cynlluniau yn eu lle yn y Cynlluniau Tymor Canolig Canolraddol. | Byrddau Iechyd | Grwpiau Gofal Llygaid<br>Y Coleg Nyrsio Brenhinol<br>Orthoptyddion Prydain ac Iwerddon<br>Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr<br>Optometreg Cymru<br>Offthalmolegwyr<br>Nyrsys<br>Optometryddion<br>Orthoptyddion<br>Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygiad. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Cynllun wedi'i gymeradwyo – Bwrdd Llywio Gofal Llygaid Mai 2017<br><br>Cynlluniau Tymor Canolig Canolraddol y Byrddau Iechyd 2017-18 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio i sicrhau bod pawb sydd â hawl yn cael cynnig ardystiad fel unigolion â nam ar y golwg. | Lansio Ardystiad newydd i Nam ar y Golwg.<br>Sicrhau bod unrhyw anghenion hyfforddi'n cael eu hadnabod a'u bodloni.<br>Offthalmolegwyr i ystyried fel rhan o'u diwrnod hyfforddi.<br>Trydydd Sector a Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid i gefnogi. | Arweinwyr Clinigol Offthalmoleg | Timau amlddisgyblaethol y Byrddau Iechyd<br>Trydydd Sector a Swyddogion Cyswllt<br>Clinigau Llygaid<br>Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Grwpiau Gofal Llygaid<br>Offthalmolegwyr. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Ebrill 2017 |

| Cam Gweithredu | Sut? | Arweinydd | Gweithredir Gan | Y Cynnydd Yn Cael Ei Fonitro Gan | Pryd? |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Yn allweddol i hyn mae darparu gwasanaethau adfer a chymhwyso ym mhob awdurdod i atal colli annibyniaeth a symudedd, ac i atal codymau, iselder ac achosion o fod yn ynysig mewn pobl sy'n colli'r golwg/â nam ar y golwg. | Datblygu adnodd o wybodaeth am anghenion.<br><br>Datblygu adnodd o wybodaeth a gwasanaethau.<br><br>Dosbarthu. | Grŵp Cynghori'r Gwasanaeth Golwg Gwan | Awdurdodau Lleol<br>Byrddau Partneriaeth Lleol<br>Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Trydydd Sector. | Bwrdd Llywio Gofal Llygaid | Papur i Fwrdd Llywio Hydref 2017<br><br>Dosbarthu 2017-18<br><br>Cynlluniau Adolygu Ebrill 2018 |